**EITEM AR YR AGENDA: 5**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**25ain Gorffennaf 2007**

## LLEOLIAD PEIRIANNAU DEUDDIBEN – GWYBODAETH ATODOL

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ac Ian Miller, Swyddog Monitro.**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I ddarparu gwybodaeth pellach i Aelodau er mwyn gallu gwneud argymhelliad i'r Awdurdod ar leoli peiriant deuddiben yn unai gorsaf dân Dolgellau neu Abermaw.

### Cyflwyniad

**2.** Roedd sefydlu peiriannau deuddiben yn rhan o Gynllun Gweithredu 3 Blynedd y Cynllun Rheoli Risg Integredig ar gyfer 2006/0 o dan y pennawd "Cynnal Momentwm".

**3.** Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18fed Mehefin 2007, penderfynodd Aelodau i weithredu'r cynllun cyfan i leoli peiriannau deuddiben yn strategol ar draws Gogledd Cymru gan ddefnyddio'r egwyddor o fynychiad 30 munud i'r peiriannau hynny, ond gohiriwyd penderfyniad terfynol ar leoli peiriant deuddiben yn unai Dolgellau neu Abermaw yn ddibynnol ar y Panel Gweithredol yn archwilio'r mater ymhellach yn ei gyfarfod nesaf.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**4.** Mae'r adroddiad yn atodi'r adroddiad gyflwynwyd fel eitem 7 ar yr agenda 7 (Atodiad 1) o gyfarfod diwethaf yr Awdurdod gynhaliwyd ar 18fed Mehefin 2007.

**Gwybodaeth Atodol**

**5.** Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18fed Mehefin, roedd Aelodau yn pryderu nad oedd yr adroddiad yn rhoi sylw i faint y boblogaeth mewn unrhyw ddyfnder.

**6.** Roedd maint y boblogaeth yn rhan integrol o'r adolygiad peiriannau arbennig gwreiddiol. Gwiriwyd y wybodaeth yn ddiweddar i sicrhau nad oedd newidiadau arwyddocaol wedi digwydd a fyddai'n effeithio'r broses gwneud penderfyniadau ac adroddwyd hyn i'r Awdurdod ym mharagraff 10 o eitem 7 ar yr agenda (Atodiad 1).

**7.** Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod diwethaf yr Awdurdod, mae'r wybodaeth am faint y boblogaeth wedi cael ei hail werthuso i sicrhau cyhyredd. Yr offer dadansoddi a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad peiriannau arbennig gwreiddiol oedd yn canolbwyntio ar faint y boblogaeth a'r effaith ar y boblogaeth yw'r Model FSEC (Fire Service Emergency Cover). Dyma fodel dadansoddi ddewisol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r CLG yn Llundain ac mae wedi cael ei ddefnyddio i ail werthuso data'r digwyddiadau mwyaf diweddar. Mae'r model yn seiliedig ar ddefnyddio gwybodaeth gefndirol o'r Cyfrifiad yn ogystal â phum mlynedd o ddata digwyddiadau hanesyddol.

**8.** Mae FSEC wedi dangos, mewn 30 munud:-

- Mae Dolgellau yn gallu cyrraedd 6,946 o gartrefi, oddeutu 15,280 o bersonau.
- Mae Abermaw yn gallu cyrraedd 6,666 o gartrefi, oddeutu 14,660 o bersonau.

**Gwybodaeth Atodol** *(parhad)*

Mae'r ffigyrau yma'n lled gymeradwy. Wrth ystyrid y ffaith fod y gorsafoedd yn gymdogion, gellir gweld fod maint poblogaeth nifer fawr o gartrefi yn cael ei rannu.

**9.** Cymhariaeth o'r ardaloedd nad ydynt yn cael eu rhannu (Atodiad 2) sy'n amlygu'r materion o arwyddocâd wrth edrych ar leoliad strategol y peiriannau deuddiben.

**10.** Mae peiriant deuddiben sydd wedi ei leoli yn Abermaw yn gallu cyrraedd 29 o gartrefi (oddeutu 63 person) na ellir eu cyrraedd gan Ddolgellau na Phorthmadog o fewn 30 munud (Atodiad 2, Oren). Mae gan 14 o'r cartrefi hyn fynediad gyfyngedig ac mae'r holl eiddo o fewn 13 i 21 munud o beiriant llinell flaen (peiriant tân safonol) o unai Harlech neu Abermaw. Byddai'r model FSEC yn graddio'r ardaloedd lle lleolir y cartrefi yma fel bod mewn perygl o farwolaeth canolig i is na chanolig.

**11.** Mewn 30 munud, mae peiriant deuddiben o Ddolgellau yn gallu cyrraedd 1,535 o gartrefi (oddeutu 3,370 o bersonau) na ellir eu cyrraedd o Abermaw neu unrhyw orsaf dân ac achub arall yng Ngogledd Cymru lle lleolir peiriant deuddiben (Atodiad 2, Coch). Mae gan 1 o'r cartrefi yma fynediad cyfyngedig. Mae'r model FSEC yn graddio lleoliad yr ardaloedd yma fel bod mewn perygl o farwolaeth canolig i llawer yn uwch na chanolig.

**12.** Effaith gyfan hyn yw fod safon 30 munud yn gweld Abermaw yn cyrraedd 362 o gartrefi gyda mynediad gyfyngedig, a Dolgellau yn cyrraedd 349 o gartrefi. Unwaith eto, mae'r ffigyrau'n lled gymharol.

**Gwybodaeth Atodol** *(parhad)*

**13.** Rhaid pwysleisio fod peiriannau deuddiben yn atodol i'r peiriannau llinell flaen. Protocol y Gwasanaeth yw i anfon dau beiriant i danau mewn cartrefi. Felly, bydd peiriant llinell flaen yn cael ei anfon i dân mewn cartref bob amser. Mae pa un ai os yw peiriant deuddiben yn un o'r ddau beiriant sy'n cael eu hanfon yn ddibynnol ar ofynion mynediad. Yn seiliedig ar leoliadau'r digwyddiadau mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu rhannu, mae peiriannau llinell flaen yn cael eu hanfon o Ddolgellau, Abermaw, Harlech, Tywyn, Aberdyfi neu'r Bala, pa un bynnag sydd agosaf.

**14.** Bydd aelodau yn cofio mai'r mwyafrif o waith ymgymerir gan beiriannau deuddiben yw delio gyda thanau glaswellt ac eithin ar dirwedd nad oes posib cael mynediad iddo gyda pheiriannau llinell flaen. Mae dyluniad y peiriannau yn eu gwneud nhw'n ddelfrydol i weithredu ar draws y tir.

Mae FSEC wedi dangos, mewn 30 munud, mae:-

- Dolgellau yn gallu rhoi sylw i 550 $Km^2$.
- Abermaw yn gallu rhoi sylw i 267 $Km^2$.

**15.** Unwaith eto, cymhariaeth o'r ardaloedd nad ydynt yn cael eu rhannu sy'n amlygu'r materion o arwyddocâd wrth edrych ar leoliad strategol y peiriannau deuddiben. Mae peiriant deuddiben sydd wedi ei leoli yn Abermaw yn cynnwys 20 $Km^2$ (Atodiad 2, Oren) na ellir ei gyrraedd gan Ddolgellau na Phorthmadog mewn 30 munud. Mae peiriant deuddiben sydd wedi ei leoli yn Nolgellau yn cynnwys 320 $Km^2$ (Atodiad 2, Coch) na ellir ei gyrraedd o fewn 30 munud gan Abermaw nag unrhyw orsaf dân ac achub arall yn Ngogledd Cymru lle mae peiriant deuddiben wedi cael ei leoli.

## Gwybodaeth Atodol *(parhad)*

**16.** Mae proffil digwyddiadau dros y pum mlynedd diwethaf yn y ddwy ardal yma nad ydynt yn cael eu rhannu yn dangos, yn yr ardal Oren (Atodiad 2), mynychodd y Gwasanaeth 5 digwyddiad, sef 1 tân mewn pabell, 1 tân glaswellt, 2 larwm diangen a Gwrthdrawiad Traffig ar y Ffordd. Nid oedd tanau mewn cartrefi. Yn yr ardal Coch (Atodiad 2), mynychodd y Gwasanaeth 163 o ddigwyddiadau oedd yn cynnwys 24 o danau eiddo gyda 8 ohonynt yn gartrefi, 42 o danau glaswellt ac eithin a 42 o Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd/Achub a'r gweddill yn larymau diangen a mân ddigwyddiadau eraill.

## Cyngor y Swyddog Monitro

**17.** "Rhaid i argymhelliad y Panel a phenderfyniad yr Awdurdod gymryd i ystyriaeth y perygl, fel gydag unrhyw benderfyniad yr Awdurdod, efallai bydd yn cael ei herio fel adolygiad barnwrol. Yn yr achos penodol hwn, roedd proses glir o ymgynghoriad ac fe benderfynodd yr Awdurdod yn Mehefin 2006 y dylid lleoli'r ail gerbyd yn Nolgellau yn hytrach nag Abermaw. Mae'r broses y cafodd y mater ei ail agor, sef mewn ymateb i lythyr hwyr iawn gan Gyngor Tref Abermaw, yn anfoddhaol ac yn gadael yr Awdurdod yn agored i adolygiad barnwrol os bydd yn troi 'nol ar y penderfyniad wnaeth ym Mehefin 2006. Hefyd, roedd rhai materion a godwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym Mehefin 2007, megis meysydd carafanau, yn amherthnasol (os yw carafán yn gallu cyrraedd safle, yna bydd peiriant tân safonol yn gallu ei gyrraedd hefyd).

**18.** Gellir ystyried fod yr Awdurdod wedi ymddwyn yn afresymol ac yn anrhesymol os byddai'n rhoi mwy o bwys ar gynrychioliad hwyr nad yw'n seiliedig ar ffeithiau nag i'r wybodaeth osodwyd ym mharagraffau 10 i 16 uchod.

## Cyngor y Swyddog Monitro *(parhad)*

Mae'r tystiolaeth gyflwynwyd yn y paragraffau hynny mor gymhellol yn fy marn i, y gallai gael ei ystyried yn afresymol i'r Awdurdod wneud unrhyw beth arall ond dod i'r casgliad y dylid lleoli'r ail beiriant yn Nolgellau. Nid oes adnoddau ar gael i ariannu prynu cerbyd ychwanegol, er mwyn i'r ddwy orsaf gael un. Mewn unrhyw ddigwyddiad, wrth ystyried y wybodaeth ym mharagraff 10 am yr ardal oren ym mharagraffau 15 ac 16, byddai cryn amheuaeth os fyddai hyn yn cynrychioli gwerth gorau y mae'r Awdurdod o dan ddyletswydd i'w gyflawni. Rwy'n gwerthfawrogi na fydd y sylwadau hyn yn cael eu croesawu gan rai aelodau, ond byddaf yn methu yn fy nyletswydd i amddiffyn diddordebau'r Awdurdod os na fyddaf yn eu codi."

## Argymelliadau

**19.** Yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr adroddiad gyflwynwyd fel eitem 7 ar yr agenda i'r Awdurdod ar 18fed Mehefin 2007 (Atodiad 1) a'r wybodaeth atodol hon, fod Aelodau yn argymell leoliad y 10fed peiriant deuddiben i'r Awdurdod.